ipcc

comisiwn cwynion
annibynnol
yr heddlu

cam wrth gam

Cyflwyniad i'r IPCC

Pwy ydym ni a'r hyn rydym yn wneud

Crewyd Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) fel rhan o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002. Cychwynnodd ar ei waith ar 1 Ebrill 2004.

Mae'r IPCC yn goruchwylio'r holl system gwynion yr heddlu. Mae'n gwneud ei benderfyniadau yn annibynnol ar yr heddlu a'r llywodraeth.

Mae'r IPCC yn sicrhau fod trefniadau addas yn eu lle ar gyfer delio â chwynion yn erbyn unrhyw berson sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu yn Lloegr a Chymru, ac ar gyfer delio â methiannau difrifol pobl sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu hyd yn oed pan nad oes cwyn wedi ei gwneud. Rydym hefyd yn amcanu at gynyddu hyder y cyhoedd yn y system gwynion trwy ddangos annibyniaeth, atebolrwydd a chywirdeb y system. Mae hyn yn cyfrannu at effeithiolrwydd y gwasanaeth heddlu cyfan.

Yn Ebrill 2006 ymestynnwyd cylch gorchwyl yr IPCC i gynnwys cwynion difrifol yn erbyn yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCA) a Chyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC).

Yn Chwefror 2008, daeth yr IPCC yn gyfrifol am gwynion difrifol am staff sy'n gweithio i Asiantaeth Ffiniau'r DU (UKBA).

Os gwelwch yn dda, ymwelwch â'n gwefan yn www.ipcc.gov.uk am ragor o wybodaeth.

Strwythur yr IPCC

Mae'r IPCC yn cynnwys Lloegr a Chymru ac mae ganddo bum swyddfa ranbarthol.

Mae'r Comisiwn ar hyn o bryd yn cynnwys Cadeirydd, dau Ddirprwy Gadeirydd a naw o Gomisiynwyr. Heblaw am y cadeirydd, mae bob Comisiynydd yn gyfrifol am heddluoedd penodol. Ni chaiff y Comisiynwyr, yn ôl y gyfraith, fod wedi gweithio erioed i'r gwasanaeth heddlu, HMRC na SOCA mewn unrhyw swyddogaeth. Y nhw yw wyneb cyhoeddus, annibynnol yr IPCC.

Mae staff proffesiynol, sy'n cynnwys gweithwyr achos, archwilwyr annibynnol a staff cefnogol, yn gwneud gwaith dydd i ddydd y Comisiwn o dan gyfarwyddyd Prif Weithredwr yr IPCC.

North East and Yorkshire
Independent Police
Complaints Commission
Evergreen House
Unit C, Cedar Court Office Park
Denby Dale Road
Calder Grove
Wakefield WF4 3DB
Ffacs: 01619 695659

North West
Independent Police
Complaints Commission
1st Floor, Oaklands House
Washway Road
Sale M33 6FS
Ffacs: 01619 695659

Wales and South West England
Independent Police
Complaints Commission
Unit 2
Eastern Business Park
Wern Fawr Lane
St Mellons
Cardiff CF3 5EA
Ffacs: 02920 361967



Central and Eastern England
Independent Police
Complaints Commission
Independent House
Whitwick Business Park
Stenson Road
Coalville LE67 4JP
Ffacs: 01530 510718

London and South East England
Independent Police
Complaints Commission
90 High Holborn
London WC1V 6BH
Ffacs: 020 7242 4695

Dysgu oddi wrth gwynion

Dyletswydd gyffredinol yr IPCC yw cynyddu hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu yn Lloegr a Chymru ac, wrth wneud hynny, gyfrannu at gynyddu hyder mewn plismona ar y cyfan.

- Rydym yn hyrwyddo hyder yn system gwynion yr heddlu yn ei chyfanrwydd.
- Rydym yn sicrhau bod system gwynion yr heddlu yn hygyrch i bawb.
- Rydym yn gosod, monitro, ymchwilio ac adolygu safonau sy'n gysylltiedig â'r modd mae system gwynion yr heddlu yn gweithredu.
- Rydym yn hyrwyddo rhagoriaeth plismona trwy dynnu allan gwersi a'u bwydo'n ôl.

Mae'r IPCC yn annog y gwasanaeth heddlu i ddysgu oddi wrth gwynion, gan arwain at welliant a rhagoriaeth mewn plismona. Rydym yn sicrhau fod y gwersi a ddysgir o'n harchwiliadau ac o achosion o gwynion a archwiliwyd, neu sydd wedi'u datrys yn lleol gan yr heddlu eu hunain, yn cael eu rhannu a'u defnyddio i wella plismona.

Sut i wneud cwyn

Gellwch wneud cwyn am berson sy'n gweithio i'r heddlu, SOCA, HMRC neu UKBA yn uniongyrchol i'r sefydliad dan sylw neu drwy'r IPCC.

Am ragor o wybodaeth ynghylch gwneud cwyn, ymwelwch â'n gwefan neu ffoniwch ni ar 0845 3002 002 i ofyn am daflen gwybodaeth.

Pa fath o gwynion mae'r IPCC yn ymchwilio iddynt?

Ymdrinnir â'r mwyafrif o gwynion yn lleol gan y sefydliad dan sylw. Mae'r IPCC yn goruchwylio'r broses hon, ond dim ond yn ymchwilio i'r achosion mwyaf difrifol ei hun.

Rhaid i rai mathau o ddigwyddiad gael eu cyfeirio at yr IPCC gan yr heddlu, HMRC, SOCA ac UKBA. Er enghraifft, pan fo rhywun wedi marw neu wedi eu hanafu'n ddifrifol yn dilyn rhyw fath o gysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol gyda'r heddlu, neu staff HMRC a SOCA sy'n defnyddio pwerau fel rhai'r heddlu. Gan ddibynnu ar amgylchiadau a difrifoldeb y gŵyn, efallai y bydd yr IPCC yn dewis ymchwilio mewn nifer o ffyrdd.

Ymchwiliad â goruchwyliaeth IPCC

Dyma ymchwiliad a oruchwylir gan yr IPCC, ond a gynhelir o dan gyfarwyddyd a rheolaeth naill ai'r heddlu, HMRC, SOCA neu UKBA. Mae ymchwiliadau â goruchwyliaeth yn berthnasol mewn achosion ble bo'r IPCC yn penderfynu bod yr achos o arwyddocâd sylweddol a phryder cyhoeddus tebygol. Mae gan yr achwynydd hawl i apelio i'r IPCC ynghylch canlyniad ymchwiliad â goruchwyliaeth.

Ymchwiliad a reolir gan yr IPCC

Mae ymchwiliad a reolir yn cael ei gynnal gan naill ai'r heddlu, HMRC, SOCA neu UKBA, ond o dan gyfarwyddyd a rheolaeth yr IPCC. Fel arfer, mae'r fath ymchwiliad yn cael ei gynnal pan fo'r honiad o'r fath arwyddocâd ac o bryder cyhoeddus tebygol fel bod angen goruchwyliaeth annibynnol o'r ymchwiliad.

Ymchwiliad annibynnol yr IPCC

Cynhelir ymchwiliad annibynnol gan staff yr IPCC ei hun. Cynhelir ymchwiliadau annibynnol i ddigwyddiadau sy'n achosi'r pryder cyhoeddus mwyaf, sydd â'r potensial mwyaf i effeithio ar gymunedau, neu sydd â goblygiadau difrifol i enw da naill ai'r gwasanaeth heddlu, HMRC, SOCA neu UKBA. Mae cyfran sylweddol o'r digwyddiadau mae'r IPCC yn ymchwilio iddynt yn ymwneud â phan fo rhywun wedi marw yn ystod neu'n dilyn cyswllt â'r heddlu neu tra'n y ddalfa.

Nid oes hawl i apelio i'r IPCC yn erbyn canlyniad ymchwiliad a reolir neu ymchwiliad annibynnol.

Os gwelwch yn dda ymwelwch â'n gwefan neu cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth ynghylch y math o ddigwyddiadau sydd raid eu cyfeirio at yr IPCC.

Apelio i'r IPCC

Mae'r IPCC hefyd yn gyfrifol am ystyried apeliadau a wneir gan aelodau'r cyhoedd ynghylch canlyniad eu cwyn. Ble bo'n briodol, gall yr IPCC gyfarwyddo'r heddlu i newid eu penderfyniad neu gymryd camau pellach.

Mae tri math gwahanol o apêl:

- Yn erbyn cwyn ddim yn cael ei chofnodi
- Yn erbyn y broses Ddatrysiad Lleol
- Yn erbyn ymchwiliad yr heddlu i'ch cwyn

Mae taflenni ar gael ar y gwahanol fathau o apêl neu gellwch ymweld â'n gwefan am ragor o wybodaeth.

Am ragor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ynghylch yr IPCC neu i wneud cais am gopi o'r daflen hon mewn fformat amgen neu iaith arall, galwch 08453 002 002, trwy e-bost ar email enquiries@ipcc.gsi.gov.uk, neu ymwelwch â'n gwefan: www.ipcc.gov.uk

ipcc
comisiwn cwynion
annibynnol
yr heddlu

Sefydliadau defnyddiol eraill

Canolfan Cyngor ar Bopeth
cymorth gyda phroblemau cyfreithiol
Ffôn 020 7833 2181
I ddod o hyd i'ch swyddfa agosaf, ymwelwch â
www.citizensadvice.org.uk

The Legal Services Commission – Community Legal Service Direct
gwybodaeth am broblemau cyfreithiol, ymgynghorwyr lleol a chymorth gyda chostau ariannol
Ffôn 0845 345 4345
www.clsdirect.org.uk

Cymdeithas y Gyfraith
Gwybodaeth am gyfreithwyr yn eich ardal
Ffôn 020 7242 1222
www.lawsociety.org.uk

Cymdeithas Llywodraeth Leol
Ffôn 020 7664 3131
www.lga.gov.uk

Cyhoeddiadau eraill gan yr IPCC

Os gwelwch yn dda, defnyddiwch y manylion cyswllt isod i ofyn am gopïau o'r cyhoeddiadau canlynol:

How to make a complaint against the police

Dealing with your complaint by Local Resolution

Appealing against a complaint not being recorded

Appealing against the Local Resolution process

Appealing against the police investigation into your complaint

The IPCC and complaints against members of Her Majesty's Revenue and Customs (HMRC) staff

Appealing against the outcome of a Her Majesty's Revenue and Customs (HMRC) investigation into your complaint

Appealing against the non-recording of a complaint by Her Majesty's Revenue and Customs (HMRC)

The IPCC and complaints against members of the Serious Organised Crime Agency (SOCA) staff

Os gwelwch yn dda defnyddiwch y manylion isod i ofyn am y daflen hon mewn iaith neu fformat gwahanol.

Independent Police Complaints Commission
90 High Holborn
London
WC1V 6BH

Ffôn: 08453 002 002
Ffacs: 020 7404 0430
Minicom: 020 7404 0431
E-bost: enquiries@ipcc.gsi.gov.uk
Gwefan: www.ipcc.gov.uk

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth gyffredinol am y sefydliad a swyddogaethau'r Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu.

Dyddiad: Rhagfyr 2008
Cyfeiriad: COM/28W